

The logo consists of a red trapezoidal shape. Inside, the text 'WcVA' is written in white, bold, sans-serif font. A thin white horizontal line is positioned below 'WcVA', and the text 'CgGC' is written in the same white, bold, sans-serif font below the line.

**WcVA**  
**CgGC**

# **Cynllun Grant Gwirfoddoli Cymru –Dyfarniadau'r Prif Grantiau**

Mudiad	Disgrifiad 50 gair	Cais grant
Cwmni Buddiannau Cymunedol (CIC) Prosiect Newid y Gêm	Bydd Prosiect Newid y Gêm yn cyflwyno rhaglen o gyfleoedd gwirfoddoli o ansawdd uchel i bobl ifanc ym Mhowys. Bydd Cydlynnydd Gwirfoddolwyr leuenctid penodedig yn cefnogi ac annog pobl ifanc ddatgysylltiedig i gymryd rhan mewn gweithredu cymunedol, a fydd yn eu helpu i fod yn ddinasyddion gweithredol hyderus a medrus sy'n cael eu gwerthfawrogi.	£ 37,037.30
Cyngor Ffoaduriaid Cymru (WRC)	Gweithio ar draws pedair dinas wasgaru: Caerdydd, Casnewydd, Abertawe a Wrecsam. Byddwn yn cynnig cyfleoedd i geiswyr lloches a ffoaduriaid ymgysylltu â maes gwirfoddoli a gwirfoddoli gydag WRC yn ogystal â'r sector cymunedol ehangach. Cynyddu eu hymdeimlad o lesiant, lleihau'r teimlad eu bod wedi'u hynysu a hybu eu hunan-barch a'u hyder.	£ 50,000.00
Cyngor ar Bopeth Sir y Fflint (CAF)	Mae CAF yn recriwtio Gweithiwr Ymgysylltu Cymunedol i helpu i aildechrau gwasanaeth gwirfoddolwyr llawn ar ôl y pandemig. Rydyn ni'n gwybod bod y byd wedi newid ac mae gennym gyfleoedd digidol newydd ac amrediad ehangach o ddarpar	£ 48,178.75

	wirfoddolwyr o bob rhan o'r ardal. Rydyn ni eisiau gwirfoddolwyr uchel eu cymhelliant mewn cyfnod o angen mawr.	
Arts Factory Cyf	Tyfu ein rhaglen wirfoddoli i greu mwy o strwythur a datblygu rhaglen hyfforddi i uwchsgilio gwirfoddolwyr er mwyn eu galluogi i fanteisio ar fwy o gyfleoedd yng nghymuned leol Rhondda Fach a ledled Rhondda Cynon Taf.	£ 49,878.24
Conwy Mind	Nod prosiect Gwirfoddoli Cymru Conwy Mind yw sicrhau bod pob gwirfoddolwr yn teimlo ei fod yn cael ei gynnwys a'i gefnogi'n llawn o fewn y mudiad. Trwy dreialu cyfleoedd i gyd-gynhyrchu, ymgysylltu a chael cymorth cymheiriaid, ochr yn ochr â rolau micro-wirfoddoli mwy hyblyg, rydyn ni'n gobeithio lleihau rhwystrau a gwneud profiad y gwirfoddolwr yn ganolog i bopeth a wnawn.	£ 47,956.00
Cymdeithas Hanes Iddewig De Cymru	Nod y prosiect yw cael amrywiaeth ehangach o bobl o gymunedau ethnig lleiafrifol i mewn i dreftadaeth, lle nad oes cynrychiolaeth ddigonol ohonynt. Byddwn yn galluogi cyfranogwyr i ennill sgiliau a phrofiadau defnyddiol. Bydd y prosiect yn dechrau ym mis Hydref, a byddwn yn chwilio	£ 39,398.93

	am wirfoddolwyr o gymunedau yng Nglanyrafon, Butetown a Grangetown.	
Plant Dewi (rhaid ei ddyfarnu i Gyngor Esgobaeth Tyddewi ar gyfer cyfrifoldeb cymdeithasol)	Bydd y prosiect hwn yn datblygu cyfleoedd gwirfoddoli o ansawdd uchel gan roi mynediad at hyfforddiant a chymorth i rieni ifanc hyd at 26 oed o Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro. Bydd rhieni ifanc yn magu hyder a hunan-barch, yn datblygu sgiliau trosglwyddadwy, yn symud i weithle neu hyfforddiant ac yn meithrin cysylltiadau positif yn eu cymunedau.	£ 38,270.84
HWB Torfaen	Bydd prosiect gwirfoddoli Hwb yn grymuso 120 o wirfoddolwyr ifanc ym Mlaenafon i gael llais yn eu bywydau eu hunain, yn eu cymunedau ac yn y sector gofal a threftadaeth y byd. Byddwn yn cynnig rhaglen ysbrydoledig a hwyl o weithgareddau gwirfoddol a arweinir gan ieuencid a fydd yn canolbwyntio ar ddulliau gwahanol o wella gwydnwch, iechyd meddwl a llesiant.	£ 49,772.00
Foothold Cymru	Nod Foothold yw recriwtio, hyfforddi a chefnogi 50 o wirfoddolwyr yn Sir Gaerfyrddin i ddod yn Wirfoddolwyr Gwydnwch Bwyd. Dros gyfnod o ddwy	£ 49,006.38

	<p>flynedd, rydym yn gobeithio creu model o ragoriaeth ar gyfer recriwtio, datblygu a chydabod gwirfoddolwyr â phrofiad bywyd o ddiffyg diogeled bwyd; gan gynyddu a rhannu'r dysgu.</p>	
Busnes yn y Gymuned	<p>'Skills Exchange' yw rhaglen wirfoddoli flaenllaw Busnes yn y Gymuned (BITC), a fydd yn recriwtio a chynnwys gwirfoddolwyr busnes er mwyn adeiladu cymunedau iach, amrywiol a medrus. Bydd BITC yn canolbwyntio ar gynyddu nifer y gwirfoddolwyr busnes sy'n defnyddio eu sgiliau proffesiynol i gefnogi mudiadau cymunedol rheng flaen ledled Cymru.</p>	£ 49,857.12
Bowel Cancer UK	<p>Ni yw'r brif elusen Canser y Coluddyn yn y DU. Nod ein prosiect yw sicrhau ein bod yn cynnig gwasanaethau sy'n berthnasol i'n cymunedau o fewn Cymru. I wneud hyn, byddwn yn galluogi gwirfoddolwyr i gefnogi'r gwasanaethau rydym yn eu cynnig ar hyn o bryd, gan hefyd adeiladu rhwydweithiau lleol o fewn Cymru er mwyn dylanwadu ar gyfeiriad ein gwaith yn y dyfodol.</p>	£ 49,569.80

Llamau Cyfyngedig	Mae 'Step into Engagement' yn dwyn ynghyd pobl ifanc sydd wedi profi digartrefedd a gwirfoddolwyr cymunedol i gyflwyno mentora 1-1 a chyfleoedd a phrofiadau pwrpasol. Bydd y gwirfoddolwyr yn cefnogi'r bobl ifanc i feithrin cydberthnasau positif, mabwysiadu ffordd iach o fyw, teimlo'n llai ynysig yn gymdeithasol, ymhél â'u cymuned ac i ddatglo'i'r potensial o ran eu cryfderau a'u dyheadau.	£ 50,000.00
Anabledd Dysgu Cymru	Cynllun cyfeillio yw 'Gig Buddies Cymru'/Ffrindiau Gigiau Cymru sy'nparu pobl ag anabledd dysgu â gwirfoddolwr i fynd i gigiau/digwyddiadau gyda'i gilydd. Byddwn yn gweithio yng Ngwynedd, Sir Ddinbych a Wrecsam i recriwtio gwirfoddolwyr newydd a gwella profiad presennol gwirfoddolwyr, gan gynnwys recriwtio, hyfforddiant, cynefino, cymorth, datblygiad, a llesiant. Bydd Cydlynnydd Gwirfoddolwyr rhan-amser yn cael ei recriwtio.	£ 48,905.15
The Birth Partner Project	Bydd prosiect Cyllid Gwirfoddoli Cymru 'The Birth Partner' yn gwella canlyniadau iechyd i famau sy'n Chwilio am Noddfa yng	£ 49,044.00

			Nghaerdydd. Bydd y rhaglen newydd yn gwranddo ac yn ymateb i'r rhwystrau sy'n atal mynediad pobl ethnig lleiafrifol at gyfleoedd gwirfoddoli ystyrllon, ac yn sicrhau bod buddiolwyr yn cael cynnig cymorth genedigol ac ôl-enedigol sy'n ddiwylliannol sensitif.	
Sefydliad Cyfyngedig	Glowyr	Llanhilledd	Mae ein rhaglen wirfoddoli arloesol yn sicrhau bod gwirfoddolwyr yn cael cymorth â rhwystrau cymhleth i gyflogaeth, felly rydym yn cynnig cyfleoedd gwirfoddoli unigolledig sy'n caniatáu i bawb gymryd rhan. Mae gwirfoddolwyr hefyd yn ein helpu i gynnal bywyd cymunedol, gan foddelu gwirfoddoli a rhoi rhywbeth yn ôl i'r gymuned a fydd yn ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf.	£ 50,000.00
Marie Curie			Prosiect yn y gymuned a arweinir gan wirfoddolwyr yw Gwasanaeth Cynorthwywyr Marie Curie yng Ngorllewin Cymru sy'n cefnogi gwirfoddolwyr hyfforddedig i gynnig cymorth un i un i bobl â salwch angheuol a'u teuluoedd a'u gofalwyr. Bydd y cyllid yn darparu Cydlynnydd Gwirfoddolwyr i recriwtio a rheoli gwirfoddolwyr, yn ogystal â datblygu cyfleoedd i weithio gyda	£ 48,436.88

	phartneriaid a gwaith cyfeirio gyda grwpiau a mudiadau lleol.	
Celfyddydau Span	<p>Mae SPAN Cyrraedd yn rhaglen o wirfoddoli creadigol wedi'i chyd-gynhyrchu sy'n:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Chwalu rhwystrau strwythurol a chymdeithasol i gymryd rhan</li> <li>• Adeiladu asiantaeth bobl a llusoi arweinyddiaeth</li> <li>• Hyrwyddo modelau rôl amlwg</li> <li>• Dathlu amrywiaeth Sir Benfro</li> </ul> <p>Cefnogi a llywio'r gwaith o gyflwyno ymgysylltiad creadigol Celfyddydau SPAN, gan gynnig hyfforddiant a chyfleoedd magu hyder i wirfoddolwyr ledled y sir.</p>	£ 26,086.52
The Rainbow Foundation	<p>Bydd 'The Rainbow Foundation', Wrecsam yn adeiladu ar y momentwm a enillwyd o arwain yr ymateb cymunedol i covid ar draws De Wrecsam er mwyn adeiladu cymuned fwy cydlynol a gwydn. Bydd gwirfoddolwyr yn mynd ati i gefnogi ein gwasanaethau allgymorth, gan gynnwys Trafnidiaeth Gymunedol, prydau bwyd i chi, cyfeillio, grwpiau cymorth cymheiriaid a</p>	£ 50,000.00



	gweithgareddau presgripsiynu cymdeithasol ehangach.	
Refurbs Sir y Fflint	Bydd 'Refurbs y Fflint' yn cynnig un sesiwn wirfoddoli'r wythnos yn y Fflint i ffoaduriaid ifanc sy'n cael eu hadleoli yng Ngogledd Cymru. Bydd y sesiynau yn canolbwyntio ar waith coed ac uwchgylchu, gan roi'r cyfle iddynt fod o fudd i'r amgylchedd drwy ddefnyddio deunyddiau wedi'u hadfer a bod o fudd i'r gymuned leol drwy greu eitemau addurnol fforddiadwy i'w gwerthu.	£ 48,579.68
Innovate Trust	Mae'r prosiect 'Secret Garden' yn cynorthwyo pobl ag anableddau dysgu i ddatblygu Ysgubor Fawr, gardd yn amgueddfa Sain Ffagan. Bydd unigolion hefyd yn ymchwilio i hanes bwthyn a gardd Ysgubor Fawr drwy archifau Sain Ffagan ei hun ac Archifau Morgannwg, a bydd y gwaith hwn yn ffurfio arddangosfa ar gyfer ymwelwyr yr amgueddfa.	£ 48,935.00
Cymorth i Fenywod Abertawe Cyfyngedig (SWA)	Bydd ein prosiect yn ein galluogi i ymgysylltu â chymaint â phosibl o wirfoddolwyr ar draws SWA a'u cadw drwy gael gwared ag unrhyw rwystrau i wirfoddoli ac annog menywod iau/hŷn, LHDTCRh+, Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol ac anabl i gymryd rhan.	£ 49,856.80

	<p>Bydd hyfforddiant, cymorth a mentora ychwanegol hefyd yn cael eu cynnig i wirfoddolwyr ar y safle ar SWAN, ein gwasanaeth allgymorth gyda'r hwyr, i annog arweinyddiaeth.</p>	
--	--	--